

Arferion duwiol

“Ond wrth iddo drafod cyfiawnder a hunanddisgyblaeth a’r Farn oedd i ddod, daeth ofn ar Ffelix a dywedodd, ‘Dyna ddigon am y tro; anfonaf amdanat eto pan gaf gyfle.’” (adn. 25)

Beth am ddarllen Actau 24:1–27 ac yna myfyrio

Mae’n ddiddorol, wrth i Paul sefyll o flaen Ffelix a siarad am gyfiawnder, y Farn i ddod, a hunanddisgyblaeth, fod y llywodraethwr yma wedi ei feddiannu gan ofn yn dweud: “Dyna ddigon am nawr.” Mae llawer o bobl yn teimlo yn anesmwyth wrth iddyn nhw sylweddoli fod eu hymdrechion i reoli eu chwantau a’u dwyn o dan reolaeth yn gwbl aneffeithiol.

Gair nad wyf wedi cyfeirio ato hyd yn hyn yw y gair ‘disgyblaeth’. Y tro diwethaf i mi fod yn yr Unol Daleithiau, dywedodd rhywun wrthyf fod nifer o bregethwyr wedi peidio â defnyddio’r gair am ei fod yn esgor ar ymateb negyddol ym meddyliau pobl. Gwell yw defnyddio’r ymadrodd ‘arferion duwiol’. Mae’n rhyfedd fod disgyblion yn cael trafferth gyda’r gair ‘disgyblaeth’. Nid yw y gair yn creu unrhyw anhawster i bobl ym myd chwaraeon. Dywedodd un enillydd medal aur Olympaidd mewn cyfweiliad teledu yn ddiweddar: “Mae’n amhosibl cyrraedd safonau Olympaidd heb ddisgyblaeth lem.” Wel, mae angen inni fod yn glir. Mae rhedeg a dyfalbarhau yn y ras ysbrydol yn gofyn am ddisgyblaeth ac ymdrech. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i’r ymadrodd ‘arferion duwiol’, ond y gwirionedd yw fod angen i Gristnogion ymdrechu yn ddisgybledig i wneud yr hyn sydd yn iawn. A dweud y gwir, nid oes yna ryddid heb ddisgyblaeth.

Darllenais erthygl mewn papur newydd yn ddiweddar oedd yn sôn am griw o ferched ifainc mewn ysgol breifat yn cyflwyno deiseb i’r brifathrawes. Roedd y ddeiseb yn darllen rhywbeth fel hyn: “Mae angen mwy o ryddid arnom, llai o waith cartref, mwy o amser teledu, a chaniatâd i aros ar ein traed yn hwyrach yn y nos.” Mae’n amlwg eu bod am fod yn rhydd o ryw reolau beichus, ond roedd eu dealltwriaeth o ryddid yn wallus. Dywedodd rhywun: “Nid yr hawl i wneud yr hyn a fynnoch yw rhyddid, ond y grym i wneud yr hyn a ddylech.” Does dim rhyddid heb hunanreolaeth.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 9:24–27; 2 Tim. 4:7–8; Heb. 12:1–13

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut a pham mae Duw yn ein disgyblu?
2. Sut mae disgyblu’r hunan?

Gweddi

O Dad, trwy dy Ysbryd Glân, cynorthwya fi i adnabod yn fy mywyd bob rhan lle mae angen disgyblaeth. Rwy’n gofyn i ti ddwyn y rhannau hynny o dan reolaeth. Rwy’n derbyn, heb ddisgyblaeth, ni allaf fod yn ddisgybl mewn gwirionedd. Amen.